**CABINET - DYDD MERCHER, 22 CHWEFROR 2023**

COFNODION CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD YN SIAMBR CYNGOR, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PENYBONT AR OGWR DYDD MERCHER, 22 CHWEFROR 2023, AM 14:30

Presennol

Y Cynghorydd HJ David – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| JC Spanswick | N Farr | W R Goode | J Gebbie |
| HM Williams | JPD Blundell | | |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Alex Rawlin | Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus |
| Carys Lord | Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio |
| Julie Ellams | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |

139. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Datganodd y Cynghorydd JP Blundell fuddiant personol yn yr adroddiad Strategaeth Gyfalaf, gan fod ganddo fuddiant yn un o'r eitemau a grybwyllwyd ynddo.

140. CADARNHAU'R COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion cyfarfod o'r Cabinet dyddiedig 17 Ionawr 2023 fel cofnod gwir a chywir.

141. CYNLLUN CORFFORAETHOL 2023-28

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad, a'i ddiben oedd rhoi diweddariad ar Gynllun Corfforaethol y Cyngor a cheisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer Cynllun Corfforaethol 2023-28, sydd ynghlwm yn Atodiad 1 i'r adroddiad, cyn ei gyflwyno i'r Cyngor i'w gymeradwyo ar 1 Mawrth 2023.

Esboniodd fod Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS) 2023-2027 y Cyngor yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor i'w chymeradwyo ar 1 Mawrth 2023 ochr yn ochr â Chynllun Corfforaethol 2023-28 sydd wedi'i ddiweddaru. Mae'r ddwy ddogfen yn cyd-fynd â'i gilydd, gan alluogi'r darllenydd i wneud cysylltiadau amlwg rhwng amcanion llesiant y Cyngor a'r adnoddau a gyfeirir atyn nhw i'w cefnogi.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("y Ddeddf") yn datgan bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol, weithio i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, a bod angen cymryd camau penodol er mwyn cyflawni hynny.

Roedd paragraff 3.3 yr adroddiad yn cadarnhau bod 7 nod llesiant ar gyfer Cymru yn cael ei nodi yn y Ddeddf uchod ai bod hi'n ofynnol i'r Cyngor ddangos ei gyfraniad at bob un o'r nodau hyn. Rhestrwyd y nodau llesiant hyn yn yr adroddiad.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr mai'r Cynllun Corfforaethol oedd prif gyfrwng y Cyngor ar gyfer arddangos a chyfathrebu'r blaenoriaethau i bobl a busnesau lleol. Roedd hefyd yn rhan bwysig o'r fframwaith sicrwydd ar gyfer ei rheoleiddwyr. Mae Archwilio Cymru yn bwriadu sefydlu dulliau o brofi sut mae'r Cynllun Corfforaethol yn cael ei weithredu (yn enwedig felly'r amcanion llesiant) ledled Cymru dros y 6 mis nesaf, a dyna pam y mae'r Cynllun mor greiddiol bwysig.

Roedd yr adborth ymchwil a'r cysylltu cynnar a wnaed wedi cyfuno set o egwyddorion drafft ac amcanion llesiant. Roedd y rhain yn rhan o'r ymgynghoriad cyllideb blynyddol a'r arolwg staff, a thrafodwyd y rhain ag Aelodau'r Cabinet, a'r grwpiau gwleidyddol.

Roedd yr egwyddorion a'r amcanion lles hyn wedi'u dwyn ynghyd yn y Cynllun Corfforaethol drafft sydd ynghlwm yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod y Cynllun Corfforaethol drafft yn gryno ac yn hygyrch gydag iaith syml. Roedd defnydd eang o ffeithluniau (er y bydd y rhain yn cael eu paratoi gan y dylunwyr yn dilyn cymeradwyaeth y Cyngor) gyda ffocws ar egwyddorion / ffyrdd o weithio yn ogystal â'r amcanion o ran lles. Mae ffocws trwy gydol yr adroddiad ar y sefyllfa ariannol a'r angen am newid, rhoi'r trigolion yn gyntaf a gwella atebolrwydd a chyfathrebu yn ogystal â sefydlu cyfrifoldeb personol / cymunedol ochr yn ochr â gwasanaethau'r Cyngor. Yn fyr, roedd y Cynllun wedi'i osod yn gliriach; yn gryno ond yn amlygu'r wybodaeth berthnasol ac felly'n haws ei ddarllen a'i ddeall na'r fersiynau blaenorol.

Byddai manylion am yr amcanion a'r dangosyddion perfformiad (neu ganlyniadau allweddol) sy'n deillio o'r Cynllun Corfforaethol, yn rhan o Gynllun Cyflawni'r Cynllun Corfforaethol, i'w baratoi ochr yn ochr â'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol ym mis Mawrth ac Ebrill 2023.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod newidiadau sylweddol wedi'u gwneud i'r Cynllun Corfforaethol ers y cysylltu cychwynnol â'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol er mwyn adlewyrchu safbwyntiau'r Pwyllgor a safbwyntiau staff a phreswylwyr. Manylwyd ar y rhain ym mharagraff 4.6 o'r adroddiad.

Yn eu tro, canmolodd Aelodau'r Cabinet y Cynllun Corfforaethol, yn enwedig o ran yr elfen o gysylltu â phobl ifanc ym Mhen-y-bont ar Ogwr ar y ddarpariaeth o fewn y Cynllun. Darpariaeth oedd yn cyflwyno dosbarthiadau fel hyfforddiant hunanamddiffyn i ferched, cefnogi gofalwyr di-dâl, rhoi cyhoeddusrwydd i'n hawliau tramwy cyhoeddus. Roedd hefyd yn sôn am y ddarpariaeth i hyrwyddo ymarfer corff am resymau iechyd a lles, hyrwyddo cynlluniau i leihau newid hinsawdd, gwella mannau chwarae i blant a cheisio buddsoddi ymhellach mewn cynlluniau ailgylchu. Roedden nhw hefyd yn cefnogi'r cysylltu â fu gyda rhanddeiliaid allweddol a thrigolion ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Diolchodd yr Arweinydd i bartneriaid y Cyngor am gyfrannu at y Cynllun a'i siapio, gan gynnwys yr Aelodau hynny a gyfrannodd trwy broses Trosolwg a Chraffu'r Awdurdod.

Ychwanegodd y Prif Weithredwr, y byddai Cynllun Cyflawni yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Cyngor, gyda'r nod o fonitro a mesur canlyniadau ac amcanion Cynllun Gweithredu'r Cynllun Corfforaethol.

| | |
|---|---|
| PENDERFYNWYD: | Bod y Cabinet yn cymeradwyo Cynllun Corfforaethol 2023-28 ynghlwm yn Atodiad 1 i'r adroddiad a'i argymell i'r Cyngor i'w gymeradwyo ar 1 Mawrth 2023. |

142. STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG (MTFS) 2023-24 HYD AT 2026-27

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad, er mwyn cyflwyno i'r Cabinet y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ar gyfer y cyfnod 2023-24 i 2026-27. Roedd hyn yn cynnwys:

- Rhagolwg ariannol ar gyfer 2023 i 2027;
- Cyllideb refeniw fanwl ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod; a
- y rhaglen gyfalaf ar gyfer y cyfnod 2022 - 2023 hyd at 2032 - 2033

Mae’r Cynllun Corfforaethol a’r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn nodi blaenoriaethau gwasanaeth ac adnoddau’r Cygnor ar gyfer y pedair blynedd ariannol nesaf, gan ganolbwyntio’n benodol ar 2023-2024.

Roedd y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn amlinellu’r egwyddorion a’r rhagdybiaethau manwl sy’n llywio penderfyniadau’r gyllideb a gwariant y Cyngor. Mae’n amlinellu’r cyd-destun ariannol y mae’r Cyngor yn gweithredu ynddo ac yn ceisio lliniaru unrhyw risgiau a phwysau ariannol wrth symud ymlaen tra ar yr un pryd yn manteisio ar unrhyw gyfleoedd sy’n codi.

Mae’r strategaeth yn canolbwyntio ar sut mae’r cyngor yn bwriadu ymateb i’r pwysau cynyddol ar wasanaethau’r sector cyhoeddus, a waethygwyd yn ystod y pandemig COVID-19, ac yn syth ar ôl hynny, gan yr argyfwng costau byw presennol. Mae’n nodi’r dulliau a’r egwyddorion y bydd y cyngor yn eu dilyn i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn ariannol gynaliadwy ac yn cyflawni’r amcanion llesiant corfforaethol

Mae’r Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid yn adrodd yn ôl yn chwarterol i’r Cabinet yn ystod y flwyddyn ariannol hon ar y sefyllfa refeniw sy’n cael ei ragamcanu ar gyfer 2022/2023. Bydd yn amlinellu’n fanwl yr effaith ar y gyllideb o’r pwysau o ganlyniad i’r costau ychwanegol a wynebir gan y Cyngor drwy gydol y flwyddyn o ganlyniad i amodau economaidd sy'n gwaethygu, chwyddiant cynyddol a chyfraddau llog yn cynyddu. Adlewyrchwyd y rhain gan gynnydd mewn prisiau, codiadau cyflog uwch na’r disgwyl a chynnydd sylweddol mewn prisiau tendro am nwyddau a gwasanaethau.

Nid oedd y setliad ariannol terfynol ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru i fod i gael ei gyhoeddi tan ddiwedd y mis hwn. O ganlyniad, mae'r gyllideb hon yn cael ei chynnig ar sail y setliad dros dro a dderbyniwyd ym mis Rhagfyr 2022. Er nad ydym yn rhagweld unrhyw newid sylweddol yn y cyllid rhwng y setliad dros dro a'r setliad terfynol, bydd unrhyw newidiadau yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Cyngor yn ddiweddarach.

Paratowyd y gyllideb ar ôl ymgynghori ag aelodau etholedig, fforwm cyllideb ysgolion a rheolwyr gwasanaethau. Yn amodol ar y risgiau a nodwyd, roedd y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer rheoli adnoddau'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023/2024 a thu hwnt.

Roedd Atodiad 3 yr adroddiad yn cynnwys y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig fanwl.

Roedd adran un o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn cynnwys trosolwg ariannol o'r Cyngor. Cadarnhaodd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid, y bydd yr Aelodau’n ymwybodol bod y Cyngor wedi gorfod gwneud gostyngiadau yn y gyllideb yn y blynyddoedd blaenorol ac mae Siart 1 yn y rhan hon o’r adroddiad yn nodi bod gostyngiadau cyllidebol o £73 miliwn wedi’u canfod ers 2010 - 2011. Roedd y rhain yn cynrychioli bron i 23% o gyllideb net y Cyngor yn y flwyddyn gyfredol.

Derbyniodd y Cyngor y rhan fwyaf o'i gyllid refeniw gan Lywodraeth Cymru drwy'r grant cynnal refeniw a chyfran o'r trethi annomestig. Roedd yn bwysig nodi mai dim ond 27%

o'r incwm y bydd y Cyngor yn ei dderbyn yn y flwyddyn ariannol gyfredol fydd yn cael ei gyllido drwy Dreth y Cyngor.

Ar gyfer 2023 - 2024, roedd hyd yn oed mwy o bwysau o ran costau uwch yn fwy amlwg nag a brofwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Mae llai o gyfleoedd i dorri gwasanaethau mewn cyfnod ble roedd angen mwy o gymorth i'n haelodau hŷn a'r rhai oedd yn fwy agored i niwed yn ein cymdeithas. Yn ogystal, mae disgwyliadau uwch ar y cyngor i fynd i'r afael â digartrefedd wedi cynyddu ac i gyflawni hynny ar sail gynaliadwy dros gyfnodau hirach. Roedd mwy o bwysau hefyd i gryfhau a chefnogi gwasanaethau gofal cymdeithasol a hynny mewn cyfnod o gostau cynyddol yn ogystal ag achosion mwy cymhleth ym maes oedolion a gofal cymdeithasol. gwasanaethau plant

Yn adran dau o'r MTFS darperir cyd-destun pellach, gwybodaeth sy'n manylu ar y wybodaeth ariannol ac anariannol sydd nodi sefyllfa ariannol y cyngor. Mewn termau real mae cyllid Llywodraeth Cymru wedi gostwng flwyddyn ar ôl blwyddyn ers 2012-2013 gydag elfen gynyddol o'r gyllideb yn gorfod cael ei hariannu gan y dreth y cyngor.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, gwnaed ymdrechion pellach i sicrhau mwy o gyfranogiad gan rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r strategaeth hon a'r cynllun corfforaethol. Mae hyn wedi cynnwys:

• Ymgymryd ag ymgynghoriad 5 wythnos gyda thrigolion Pen-y-bont ar Ogwr. Pwyslais yr ymgynghoriad oedd ceisio barn ar y meysydd hynny sy'n flaenoriaeth i drigolion, er mwyn galluogi'r Cyngor i adolygu a blaenoriaethu'r gyllideb. Manylwyd ar ganlyniad y broses ymgynghori hon yn Nhabl 5 yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.
• Mae'r Cabinet a'r bwrdd rheoli corfforaethol wedi bod yn gweithio gyda'r Panel Ymchwil a Gwerthuso Cyllideb (BREP) dros y chwe mis diwethaf i hwyluso'r broses o gynllunio'r gyllideb.
• Roedd yr adroddiad ar y gyllideb ddrafft a gymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Ionawr 2023, ac wedi dilyn proses graffu wedyn gan bwyllgorau trosolwg a chraffu'r Cyngor gan arwain at lunio nifer o argymhellion. Mae'r Cabinet wedi ystyried y rhain a rhai argymhellion gan y Panel Ymchwilio a Gwerthuso Cyllideb. Darparwyd ymateb i'r rhain yn Atodiad A i'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

Roedd yr ymatebion a dderbyniwyd o'r ymgynghoriad gyda'r cyhoedd yn ogystal a thrafodaethau a gafwyd ac argymhellion gan BREP a Gorolwg a Chraffu wedi cael eu hystyried. Mae'r gyllideb sy'n cael ei argymell wedi'i selio ar y sylwadau a'r argymhellion a dderbyniwyd.

Wrth ystyried y sefyllfa ariannol mae'r egwyddorion canlynol bellach yn ffurfio sail i'r gyllideb derfynol ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod:

• Bydd y Cyngor yn ceisio amddiffyn y bobl fwyaf bregus yn ein cymunedau;
• Bydd y Cyngor yn ceisio cyfyngu ar dwf gwasanaethau yn y flwyddyn ariannol i ddod;
• Dylid adolygu holl gyllidebau'r Cyngor i adnabod arbedion ar gyfer y flwyddyn i ddod;
• Lle bo modd, bydd gwasanaethau cefn swyddfa yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer gostyngiadau mewn gwasanaeth;
• Dylai'r Cyngor ystyried a yw ysgolion yn gallu cyfrannu at yr arbedion cyffredinol sydd eu hangen yn y flwyddyn i ddod; a
• Wrth osod y gyllideb ar gyfer 2023-2024 mae angen ystyried y pwysau a ragwelir ar y gyllideb yn y blynyddoedd ariannol dilynol.

Gan ystyried yr uchod, mae'r gyllideb arfaethedig:

• Yn darparu cyllid ychwanegol i gefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed o fewn ardaloedd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr trwy gynyddu cyllid i gefnogi gofal cymdeithasol a chynyddu cyllid i gefnogi'r digartref;
• lleihau’r lefel o ostyngiadau yn y gwasanaethau sydd eu hangen yn y flwyddyn i ddod o £600,000;
• lleihau'r cynnydd arfaethedig yn Nhreth y Cyngor o 6% i 4.9% i gydnabod effaith unrhyw gynnydd costau byw ar drigolion y Fwrdeistref Sirol.

Wrth gynnig hyn, mae ysgolion wedi cael y dasg o ddod o hyd i ostyngiadau cyllidebol o gyfanswm o 2% o'u cyllideb, i'w canfod cyn belled ag y bo modd o arbedion effeithlonrwydd, er mwyn helpu i fantoli cyllideb y Cyngor. Dylid nodi y bydd y cyngor yn ariannu'r codiadau cyflog a phrisiau y bydd ysgolion yn cwrdd â nhw yn y flwyddyn i ddod yn llawn a byddai hyn yn sylweddol fwy na'r gostyngiad hwn yn y gyllideb. Bydd y risg o ran cyflogau a phrisiau felly yn nwylo'r Cyngor yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Rhoddwyd manylion y cyllidebau ar gyfer gwasanaethau unigol yn adran 2.4 o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, tra bod y drydedd adran  o'r MTFS yn amlinellu sefyllfa ariannol bresennol ar gyfer y Cabinet.

O ran y setliad llywodraeth leol dros dro, y prif elfen oedd y cynnydd cyffredinol o 7.9% ledled Cymru. Roedd lledaeniad y cynnydd ledled Cymru yn amrywio o 6.5% i 9.3% ac, ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr, roedd cynnydd o 7.7% ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod.

Mae’r setliad yn cynnwys cyllid i alluogi awdurdodau lleol i barhau i dalu’r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol. Mae cyllid ar gyfer prydau ysgol am ddim yn ystod gwyliau ysgol wedi dod i ben, ond mae dyraniadau ar gyfer y ddwy flynedd ariannol nesaf i gefnogi’r cynnydd yn yr hawl i brydau ysgol am ddim i bob disgybl mewn ysgolion cynradd.

Mae'r MTFS hefyd yn modelu sefyllfa ariannol yr awdurdod am y pedair blynedd nesaf. Mae hyn yn seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu setliad dros dro ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod ac yna bydd cynnydd dangosol ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol o 3.1%.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid fod y rhagolwg ariannol ar gyfer 2023 i 2027 yn seiliedig ar ragdybiaethau ynghylch rhagamcanion demograffig, cynnydd mewn chwyddiant, effaith deddfwriaeth a pholisïau newydd a chostau staffio uwch. Wrth ddatblygu'r amcangyfrifon hyn, mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn cynnwys rhagdybiaethau o ran cynnydd posibl yn y dreth gyngor wrth symud ymlaen. Oherwydd y pwysau a amlinellwyd eisoes, cynigir cynyddu’r dreth gyngor i 4.9% yn 2023-2024. Mae hyn yn sylweddol is na’r gyfradd chwyddiant bresennol er mwyn gallu cefnogi dinasyddion Pen-y-bont ar Ogwr i ddelio â chostau byw cynyddol, fel cynnydd mewn biliau ynni a bwyd, cynnydd o ganlyniad i ffactorau chwyddiannol eraill a chynnydd mewn llog morgeisi. At ddibenion cynllunio, rhagdybir y bydd y dreth gyngor yn cynyddu 4.5% yn 2024 – 2025 i 2026 - 2027. Mae'r ffigurau hyn at ddibenion cynllunio yn unig a chânt eu hadolygu bob tro y caiff y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ei diweddaru.

Ynghyd â’r cyllid dangosol gan Lywodraeth Cymru, amcangyfrifir y bydd gofyniad cyllideb net o £17 miliwn yn ystod y cyfnod hwn. Manylwyd ar y senarios hyn yn Nhabl 7 yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig

Mae Adran 4 o’r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn amlinellu’n fanylach sefyllfa’r gyllideb ar gyfer 2023/2024. Manylir ar y gofyniad cyllideb net ar gyfer y flwyddyn nesaf yn Nhabl 10 yr adroddiad hwn sy'n dangos cyllideb net o £342 miliwn.

I grynhoi, mae’r elfennau allweddol yn cynnwys:

Mae gofynion ariannol ychwanegol o dros £25 miliwn ar gyfer y flwyddyn i ddod, yn cynnwys:

• £14 miliwn i gwrdd â chwyddiant cyflogau a phrisiau
• £2.4 miliwn  i ariannu'r cynnydd yn y RLW ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol
• £8.6 miliwn o gostau anochel ar gyfer gwasanaethau oedd yn cynnwys :

o Mwy o arian i gwrdd â phwysau ariannol ychwanegol yn y Gwasanaethau Cymdeithasol i oedolion, gan gynnwys cynnydd ar gyfer gwasanaethau a chymorth i bobl hŷn;

o Cynnydd yn y galw am wasanaethau iechyd meddwl ac anabledd dysgu oherwydd effeithiau hirdymor pandemig Covid-19;

o Capasiti ychwanegol i gefnogi gwasanaethau plant i sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu bodloni'r gofynion i ddiogelu plant;

o Costau cynyddol gwasanaethau a gomisiynir yn y sector gofal cymdeithasol;

o Cynnydd yn y nifer o aelwydydd ac unigolion sy’n cyflwyno eu hunain fel rhai sy’n ddigartref.

Mae'n anochel y bydd pwysau ychwanegol yn codi yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i newidiadau o ganlyniad i ddeddfwriaethol newydd neu ddigwyddiadau nas rhagwelwyd. Mae dyraniad dros dro o £1.3 miliwn wedi'i neilltuo ar gyfer y rhain, tra bod gwaith pellach yn cael ei wneud. Bydd cyllid yn cael ei ddyrannu yn ystod y flwyddyn yn amodol ar gymeradwyo achos busnes lle bo angen.

Ers i gynigion y gyllideb ddrafft gael eu hystyried gan y Cabinet a’r Pwyllgorau Craffu ym mis Ionawr, mae’r newidiadau canlynol wedi bod o ran gwasgedd ar y gyllideb:

• Mwy o ddyraniad ariannol i gwrdd â chodiadau cyflog posibl;
• Mwy o ddyraniad ariannol i gwrdd â chynnydd mewn prisiau nad ydyn nhw’n gyflogau; a
• Cynnydd yn y dyraniad ariannol ar gyfer y Cyngor cyfan i gwrdd â gofynion ariannol newydd sy’n ein hwynebu.

Dywedodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid y dylid nodi na fu'n bosibl ariannu'r holl ofynion ariannol ychwanegol a nodwyd gan y gwasanaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod wrth fantoli'r gyllideb hon. O'r £20 miliwn a nodwyd, dim ond £11 miliwn a ariannwyd yn y gyllideb arfaethedig.

Gall aelodau dderbyn mwy o fanylion am y pwysau ariannol ar y costau yn Atodiad C y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

Er mwyn mantoli'r gyllideb, mae gostyngiadau wedi'u nodi sy'n dod i gyfanswm o £2.6 miliwn. Mae manylion y rhain ar gyfer yr aelodau i’w gweld yn Atodiad D i'r MTFS. Mae'r rhain wedi'u newid ers i'r cynigion gael eu hystyried gan y Cabinet a Phwyllgorau Trosolwg a Chraffu ym mis Ionawr, gyda'r arbedion y mae angen eu cyflawni, gyda gostyngiad o £648,000.

Roedd yr Aelodau'n ymwybodol bod awdurdod Tân ac Achub De Cymru yn cael ei ariannu drwy godi ardoll ar y cynghorau perthnasol,  swm oedd yn seiliedig ar eu

poblogaeth. O fewn yr MTFS cyfeirir at hyn ym mharagraff 4.1.21 yr adroddiad. Yr ardoll a oedd yn daladwy ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod oedd £8.5 miliwn. Mae hyn yn gynnydd o £698,000 neu 9.25% yn uwch na ffigur 2022 – 2023.

Cododd y Cyngor incwm drwy ffioedd a thaliadau a chaiff y rhain eu hadolygu'n flynyddol. Roedd taliadau neu daliadau newydd sydd wedi'u cynnwys yng nghyllideb 2023-24, ac sy'n uwch na'r cynnydd cyffredinol i'w gweld yn Atodiad E yr adroddiad.

Yn ogystal â'r gyllideb Refeniw, roedd y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig hefyd yn ymdrin â'r Rhaglen Gyfalaf arfaethedig ar gyfer y cyfnod 2022-23 i 2032 - 2033. Mae'r rhaglen 10 mlynedd hon wedi'i diwygio yn ystod y flwyddyn ariannol hon a'i diweddaru er mwyn ystyried ystyriaethau newydd a chynlluniau cyfalaf wrth iddyn nhw gael eu paratoi.

O fewn setliad dros dro Llywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod, roedd £8.008 miliwn ar gael i gefnogi gwariant cyfalaf.

Oherwydd y cyllid cyfalaf cyfyngedig sydd ar gael, cadarnhaodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid na ofynnwyd i wasanaethau gyflwyno bidiau am gyllid ar hyn o bryd, er y cydnabuwyd bod nifer o agweddau cyfalaf y bydd angen eu hariannu yn y dyfodol. Ystyriaethau oedd yn cynnwys adfywio, datgarboneiddio, digartrefedd a digideiddio. Yn ogystal, mae pwysau ariannol hefyd o ganlyniad i effaith y rhyfel yn yr Wcrain a'r argyfwng costau byw, sydd i'w gweld yn y prisiau tendro presennol ac a fydd yn parhau am beth amser i'r dyfodol, gan roi pwysau ychwanegol ar y Rhaglen Gyfalaf yn gyffredinol.

Roedd y Rhaglen Gyfalaf yn cynnwys nifer o ddyraniadau blynyddol a delir o gyfanswm cyllid cyfalaf cyffredinol y Cyngor. Dangoswyd dyraniad arfaethedig y rhain ar gyfer 2023 – 2024 yn nhabl 13 yr adroddiad.

Yn yr adroddiad heddiw, cynigiwyd rhai newidiadau i'r Rhaglen Gyfalaf bresennol gan gynnwys cynlluniau newydd i'w hariannu. Roedd y rhain yn cynnwys agweddau fel adnewyddu priffyrdd, adnewyddu meysydd chwarae i blant a chanolfan ddata TGCh. Roedd yr adroddiad hefyd yn amlinellu rhai diwygiadau arfaethedig i gynlluniau presennol o fewn y rhaglen, yn ogystal â chynnwys cynlluniau cyllid grant newydd eu cymeradwyo.

Byddai unrhyw gynigion newydd pellach ar gyfer cyllid cyfalaf yn cael eu hystyried yng ngoleuni, ac yn unol â'r Strategaeth Gyfalaf arfaethedig ar gyfer y cyfnod hyd at 2032 - 2033 a byddant yn cael eu dwyn yn ôl i'r Cyngor i'w cymeradwyo yn ddiweddarach.

Roedd y Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig i'w gweld yn Atodiad G yr adroddiad.

Cynhaliwyd trosolwg o gronfeydd wrth gefn y Cyngor ddiwedd Rhagfyr 2022 yn unol â phrotocol cronfeydd wrth gefn a balansau y Cyngor. Roedd dadansoddiad o'r symudiadau yn y cronfeydd wrth gefn bryd hynny yn Atodiad H yr adroddiad. Rhagwelir symudiadau pellach eisoes yn chwarter olaf y flwyddyn ariannol hon a dangoswyd y rhain yn 4.3.2 y ddogfen MTFS.

Yn unol â'r protocol cronfeydd wrth gefn, cynhelir adolygiad pellach ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gyfredol a gwneir trosglwyddiadau ar yr adeg hon gan ystyried sefyllfa ariannol gyffredinol y Cyngor, gan gynnwys yr alldro terfynol, incwm treth gyngor cronedig gwirioneddol, lefelau wrth gefn a glustnodwyd, lefel Cronfa'r Cyngor ac unrhyw bwysau neu risgiau newydd y mae angen darparu ar eu cyfer.

O ran Treth y Cyngor, gellir mantoli'r gyllideb arfaethedig o £342.047 miliwn a ddangosir yn nhabl 10 y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, gyda chynnydd o 4.9% yn y dreth gyngor ar gyfer 2023-2024. Mae'r cynnydd hwn yn is na chyfradd chwyddiant ond mae ei angen i alluogi'r Cyngor i gwrdd â'r pwysau cyllidebol sylweddol a digynsail y mae'n ei wynebu gan gynnwys pwysau uwch na'r disgwyl o ran cyflogau, prisiau a gwasanaethau. Mae'n cymryd i ystyriaeth y setliad gwell na'r disgwyl, ond mae'n ymwybodol o'r pwysau parhaus sy'n wynebu'r Awdurdod o hyd.

Daeth y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid â'i chyflwyniad i ben, drwy nodi bod adran olaf y Strategaeth, yn rhoi gwybodaeth am ragolygon ariannol tymor hwy y Cyngor. Ni fwriedir i hon fod yn Strategaeth Gyllideb 10 mlynedd oherwydd nifer y newidynnau sy’n effeithio ar sefyllfa ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Fodd bynnag, darparodd fframwaith ariannol i gyfeirio ato wrth baratoi cynlluniau ariannol blynyddol a thymor hwy.

Canmolodd yr Aelod Cabinet - Adnoddau y cynigion ar gyfer yr MTFS ac estynnodd ei ddiolch i’r Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid a’i Swyddogion Cyllid am yr holl waith caled yr oedden nhw wedi’i wneud, er mwyn darparu cyllideb gytbwys. Roedd hyn wedi bod yn wyneb blynyddoedd o gyfyngiadau ariannol parhaus a ddaeth yn sgil Brexit, Covid a’r argyfwng Costau Byw, ymhlith eraill. Roedd hyn i gyd yn ychwanegol i’r cynnydd mewn chwyddiant o 10%. Ychwanegodd fod Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor ar gael i drigolion ar incwm isel os ydyn nhw’n canfod eu bod yn cael anhawster i dalu eu biliau Treth y Cyngor. Ychwanegodd ymhellach fod y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig wedi'i llunio'n ofalus am y 12 mis diwethaf ac yn ystod y cyfnod hwnnw, roedd y Cyngor wedi lobïo Llywodraeth Cymru am fwy o gyllid ar bob cyfle posib. Ychwanegodd hefyd fod y Cyngor wedi edrych ar arfer dda mewn Awdurdodau eraill.

Canmolodd yr Arweinydd y mewnbwn gan drigolion ar y gyllideb yn ystod y cyfnod ymgynghori. Tynnodd sylw at y pwysau yr oedd y Cyngor yn ei wynebu oherwydd cynnydd mewn cyflogau a chwyddiant nad oedd modd eu hosgoi gan eu bod wedi'u pennu'n genedlaethol ac y bu'n rhaid eu bodloni. Cydnabu'r cyfraniadau trawsbleidiol a wnaed, drwy Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu fel y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu a BREP, gan gynnwys bod y Cabinet wedi ystyried rhai o argymhellion y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol. Yn anffodus, ni fu'n bosibl darparu ar gyfer yr holl argymhellion hyn ychwanegodd, gan y byddai hyn wedi golygu na fyddai'r gyllideb yn parhau'n gytbwys. Roedd £68 miliwn wedi’i ddyrannu i Raglen Moderneiddio Ysgolion y Cyngor yn ogystal â £2.4 miliwn er mwyn darparu’r Cyflog Byw Gwirioneddol i’n gofalwyr, i ddiogelu recriwtio a chadw staff yn y swyddi hynod bwysig hyn.

Cydnabu'r Dirprwy Arweinydd y gefnogaeth ariannol a roddwyd i'r Gwasanaethau Cymdeithasol, rhywbeth a amlygwyd gan drigolion, hynny yw, y gefnogaeth hanfodol barhaus i drigolion hŷn. Ychwanegodd fod angen ystyried y gyllideb gan gofio'r toriadau y mae awdurdodau lleol wedi parhau i'w hwynebu ers 2012, sydd gryn amser yn ôl. Sicrhaodd y byddai unrhyw gymorth pellach y gellid ei ddarparu i ysgolion yn cael ei ystyried yn ofalus trwy unrhyw gyfleoedd ariannu a/neu Raglen Gyfalaf y Cyngor.

Yn eu tro, cymeradwyodd Aelodau Cabinet eraill eu cefnogaeth yn y gyllideb ar gyfer y meysydd gwasanaeth allweddol canlynol:-

- Gorfodaeth gwastraff;
- Ail wynebu priffyrdd
- Gwella mannau chwarae
- Agenda Net Zero Carbon
- Cyfleoedd adfywio
- RNLI
- Cefnogaeth i'r digartref

- Llyfrgelloedd
- Canolfannau Hamdden (hybu iechyd a lles)
- Mwy o dai
- Gwelliannau ysgol

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn cymeradwyo MTFS 2023-24 hyd at 2026-27, gan gynnwys cyllideb refeniw 2023-24 a Rhaglen Gyfalaf 2022-23 hyd at 2032-33 ac argymell y rhain i'r Cyngor eu mabwysiadu. Cymeradwyodd hefyd fod yr elfennau penodol canlynol yn cael eu hanfon ymlaen i'r Cyngor i'w cymeradwyo:

- MTFS 2023-24 hyd at 2026-27 (Atodiad 3 yr adroddiad).
- Gofyniad Cyllideb Net o £342,047,227 yn 2023-24.
- Treth y Cyngor Band D ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn £1,675.26 ar gyfer 2023-24 (Tabl 15 y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig).
- Cyllidebau 2023-24 fel eu dyrannwyd yn unol â Thabl 10 ym mharagraff 4.1.3 o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.
- Rhaglen Gyfalaf 2022-23 hyd at 2032-33, sydd ynghlwm yn Atodiad G y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

143. STRATEGAETH CYFALAF 2023-24 YMLAEN

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad a oedd yn cyflwyno Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2023-24 i'r Cabinet (yn Atodiad A yr adroddiad), a oedd yn cynnwys Dangosyddion Darbodus, a'r Datganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw Blynyddol 2023-24 (Adran 7 o Atodiad A), cyn ei gyflwyno i'r Cyngor i'w gymeradwyo.

Fel gwybodaeth gefndirol, cadarnhaodd ei bod yn ofynnol i awdurdodau lleol bennu Strategaeth Gyfalaf sy'n dangos bod yr awdurdod yn gwneud penderfyniadau gwariant cyfalaf a buddsoddi yn unol ag amcanion y gwasanaeth ac yn rhoi ystyriaeth briodol i stiwardiaeth, gwerth am arian, doethineb ariannol, cynaliadwyedd a fforddiadwyedd wrth wneud y penderfyniadau hyn.

Mae'r Strategaeth yn nodi cynllun y Cyngor ar gyfer gwariant cyfalaf, a sut y caiff hynny ei ariannu, dros y 10 mlynedd nesaf. Wrth wneud penderfyniadau buddsoddi hirdymor, mae'n hollbwysig bod penderfyniadau'n seiliedig ar wybodaeth glir, gan gynnwys cynllun hirdymor o gynlluniau rheoli. Lle mae angen buddsoddiad cyfalaf i gyflawni blaenoriaethau'r cyngor, y Strategaeth yw'r fframwaith y gall y Cyngor ddibynnu arno i ddatblygu proses glir, gyson a gwybodus wrth wneud penderfyniadau buddsoddi cyfalaf.

Mae'r ddogfen yn rhan annatod o gyllideb a fframwaith polisi'r Cyngor ac yn gysylltiedig â'r Cynllun Corfforaethol, Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a Chynllun Rheoli Asedau'r Cyngor.

Roedd 13 egwyddor sy'n llywio penderfyniadau cyllideb a gwariant y Cyngor hwn, gyda thair ohonyn nhw'n cyfeirio'n benodol at y Rhaglen Gyfalaf.

Y rhain oedd:

- mae penderfyniadau buddsoddi cyfalaf yn cyd-fynd â strategaeth gyfalaf y cyngor ac yn lliniaru unrhyw risgiau statudol gan ystyried adenillion ar fuddsoddiad a gwerthusiad cadarn o'r opsiynau;

• defnyddir benthyca darbodus i gefnogi'r rhaglen gyfalaf dim ond lle mae'n fforddiadwy ac yn gynaliadwy o fewn terfynau benthyca cyffredinol y cyngor a'r gyllideb refeniw dros y tymor hir;

• mae penderfyniadau ar drin asedau dros ben yn seiliedig ar asesiad o'r cyfraniad posibl i'r gyllideb refeniw a'r rhaglen gyfalaf.

Roedd y Strategaeth Gyfalaf hefyd yn seiliedig ar yr egwyddorion a ganlyn, ychwanegodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid :

• mae buddsoddiad cyfalaf yn canolbwyntio ar gyflawni amcanion a blaenoriaethau lles y Cyngor.
• sicrhau llywodraethu cadarn wrth wneud penderfyniadau.
• sicrhau bod cynlluniau cyfalaf yn fforddiadwy, cynaliadwy a darbodus
• hyrwyddo'r defnydd gorau o'r cyllid sydd ar gael.

Roedd y Cynllun yn manylu ar sut y bydd unrhyw fuddsoddiadau arfaethedig mewn tir ac adeiladau yn gofyn am gwblhau astudiaeth ddichonoldeb lawn i werthuso ymarferoldeb y prosiect cyfalaf, ac i asesu pa mor ymarferol ydy cyflawni hyn cyn i'r Cyngor fuddsoddi amser ac arian yn y prosiect hwnnw.

Nododd y Strategaeth fod nifer o feysydd arwyddocaol y bydd angen eu hariannu yn y dyfodol, gan gynnwys adferiad economaidd, datgarboneiddio a digartrefedd, digideiddio ac amddiffynfeydd arfordirol. Fel yr adroddwyd i'r Cyngor drwy gydol y flwyddyn hon, mae pwysau ariannol eraill hefyd yn codi o ganlyniad i'r pandemig a Brexit, sydd i'w gweld mewn cynlluniau presennol, a rhagwelir y bydd hyn yn parhau am beth amser wrth symud ymlaen. Mae'r pwysau'n cynnwys anawsterau yn y gadwyn gyflenwi ac mae hyn yn arwain at brisiau uwch ac oedi cyn cwblhau cynlluniau.

Mae'r Strategaeth hefyd yn cyfeirio at y newidiadau o ran y gallu i fenthyca gan y bwrdd benthyciadau gwaith cyhoeddus mewn perthynas â benthyca i fuddsoddi yn bennaf ar gyfer enillion ariannol. Wrth geisio benthyca gan y PWLB, gofynnir i awdurdodau gadarnhau nad oes unrhyw fwriad i brynu asedau buddsoddi yn bennaf ar gyfer elw yn y flwyddyn gyfredol na'r ddwy flynedd ariannol nesaf. Er nad oedd hyn yn atal y Cyngor rhag buddsoddi mewn gweithgareddau masnachol, byddai buddsoddi mewn asedau ar gyfer elw yn unig yn atal yr awdurdod rhag cael mynediad at fenthyciadau PWLB. Gan y bydd angen i'r Cyngor fenthyca i gefnogi rhaglen band B Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain a'r rhaglen gyfalaf ehangach, bydd hyn yn ei atal rhag buddsoddi mewn tir neu eiddo, dim ond er mwyn sicrhau elw ariannol.

Yn adran tri o'r Strategaeth, ceir manylion sy'n amlinellu'r broses gadarn sydd yn ei lle i gymeradwyo, rheoli a monitro prosiectau cyfalaf. Fel y gŵyr y Cabinet, mae adroddiadau monitro cyfalaf chwarterol yn cael eu paratoi ar gyfer y Cabinet a'r Cyngor, sy'n cynnwys manylion unrhyw amrywiadau rhwng prosiectau yn ogystal â rhagamcanion o wariant tebygol diwedd blwyddyn.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid, fod y Cyngor yn cynllunio gwariant cyfalaf o £69 miliwn yn 2023 - 2024 a chrynhoir hyn yn Nhabl Dau yn y Strategaeth Gyfalaf. Roedd y prif brosiectau cyfalaf i'w cyflawni yn y cyfnod hwnnw wedi'u manylu yn y Strategaeth, gyda'r rhaglen gyfalaf 10 mlynedd arfaethedig fanwl i'w gweld yn Atodiad 2.

Roedd gan y Cyngor nifer o ffrydiau ariannu ar gael i gefnogi buddsoddiad cyfalaf a manylwyd ar y rhain yn Atodiad un y Strategaeth Gyfalaf. Derbyniwyd cyllid gan Lywodraeth Cymru tuag at gost cyfalaf ac mae'r cyllid hwn yn cael ei flaenoriaethu tuag at fuddsoddiad sydd ei angen i gwrdd â gofynion iechyd a diogelwch.

Roedd dau brif fath o fenthyca i dalu am fuddsoddiad cyfalaf, sef:

• Benthyca â chymorth - mae costau gwasanaethu'r ddyled wedi'u cynnwys yn y grant cynnal refeniw blynyddol a dderbynnir yn bennaf gan y llywodraeth, a

• benthyca digymorth - y mae'n rhaid talu'r gost hon o gyllideb refeniw'r Cyngor

Yn olaf, dywedodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid, fod yn rhaid i'r Cyngor yn flynyddol roi o'r neilltu ddarpariaeth ar gyfer ad-dalu dyled allanol. Gelwir hyn yn isafswm darpariaeth refeniw. Mae angen i'r MRP gael ei gymeradwyo gan y Cyngor cyn dechrau pob blwyddyn ariannol a dangoswyd y datganiad polisi mewn perthynas â hyn yn Adran 7 o'r Strategaeth Gyfalaf.

Wrth gytuno ar Raglen Gyfalaf y Cyngor, roedd angen i Aelodau fod yn ymwybodol o effaith cynlluniau cyfalaf ar y gyllideb refeniw a fyddai'n cynnwys:

• Costau gweithredu neu gynnal ased newydd;

• costau cyllido cyfalaf gwasanaethu unrhyw fenthyca sydd ei angen i dalu am fuddsoddiad;

• costau refeniw paratoi a chyflawni prosiectau.

Gorffennodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid drwy gadarnhau bod y canran o gyllideb refeniw'r Cyngor sydd wedi'i ymrwymo i gostau cyllido cyfalaf yn cynyddu yn y tymor hir o ystyried y pwysau ar gyllidebau refeniw. Roedd hyn yn cyfyngu ar fforddiadwyedd blaenoriaethau eraill yn y blynyddoedd i ddod a dylai fod yn ffactor a ystyrir gan y Cabinet wrth benderfynu ar y Rhaglen Gyfalaf.

Dywedodd yr Aelod Cabinet – Adnoddau fod adroddiad ar y Strategaeth Gyfalaf wedi'i ystyried drwy broses Trosolwg a Chraffu'r Cyngor. Croesawodd y gwerthusiad o brosiectau wrth symud ymlaen a gofynnodd a fyddai'n ofynnol i'r Awdurdod fenthyca arian ar gyfer unrhyw un o brosiectau cyfalaf arfaethedig y Cyngor.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid ei bod yn debygol y byddai'n rhaid i'r Cyngor fenthyca er mwyn cefnogi rhai prosiectau dros y 3 blynedd nesaf, er bod hyn yn dibynnu ar gyflawni'r Rhaglen o fewn amserlenni strwythuredig. Fodd bynnag, byddai lefel unrhyw fenthyca yn cael ei fonitro'n ofalus ac ni fyddai benthyca o'r fath yn cael ei wneud oni bai bod angen gwneud hynny.

Pwysleisiodd yr Aelod Cabinet - Addysg bod lefel y gwariant sy'n cael ei ymrwymo i raglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain y Cyngor yn sylweddol. Teimlai fod y rhaglen yn seiliedig ar les ac yn un a oedd yn cefnogi'r rhai llai ffodus mewn cymdeithas.

Cydnabu'r Aelod Cabinet – Cymunedau y gwaith sy'n cael ei gynllunio yn caniatáu mynediad ar gyfer chwarae i bob plentyn mewn meysydd chwarae/mannau a blaenoriaethu gwaith strwythurol ar y priffyrdd.

Canmolodd yr Arweinydd ymagwedd y Cyngor at astudiaethau dichonoldeb a gynhaliwyd mewn perthynas â phrosiectau gwariant cyfalaf mawr fel dull cadarnhaol o flaengynllunio ar gyfer cynlluniau yr ymgymerwyd â nhw o flaen llaw. Cydnabu hefyd fod angen i'r Cyngor ystyried 'unrhyw wersi a ddysgwyd' o brofiadau blaenorol wrth fabwysiadu prosiectau cyfalaf yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD:

Bod y Cabinet yn ystyried yr adroddiad ac yn argymell bod Strategaeth Gyfalaf 2023-24 hyd at 2032-33 gan gynnwys y Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2023-24 hyd at 2025-26 a Datganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw Blynyddol (MRP) 2023-24 yn Atodiad A, yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor i'w gymeradwyo.

144. STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS 2023-24

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad, a'i ddiben oedd cyflwyno i'r Cabinet Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2023-24 (Atodiad A i'r adroddiad), a oedd yn cynnwys Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys, cyn eu cyflwyno i'r Cyngor ar gyfer derbyn cymeradwyaeth.

Eglurodd fod swyddogaethau Rheoli Trysorlys y Cyngor yn cael eu rheoleiddio gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003. Roedd hyn yn rhoi pwerau i awdurdodau fenthyca a buddsoddi yn ogystal â darparu rheolaethau a chyfyngiadau ar y gweithgaredd hwn.

Yn unol â Chod Darbodus y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus ar gyfer Cyllid Cyfalaf, mae'n rhaid i'r Cyngor gymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys cyn dechrau pob blwyddyn ariannol, sy'n nodi ei gyfrifoldebau, ei ddirprwyo a'i drefniadau adrodd a'r Prif Swyddog Ariannol.

Mae'r Strategaeth arfaethedig ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod ynghlwm yn Atodiad A yr adroddiad. Cyflawnodd y Cyngor ei weithgareddau rheoli'r trysorlys yn unol â chod darbodus y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus, sydd wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu newidiadau mewn amgylchedd cynyddol gymhleth ac i ategu newidiadau i reoliadau. Roedd y cod yn ei gwneud yn ofynnol bod amcanion, polisïau ac arferion ffurfiol a chynhwysfawr, strategaethau a threfniadau adrodd yn ôl yn eu lle ar gyfer rheoli a rheoli gweithgareddau rheoli'r trysorlys yn effeithiol ac mai rheoli a rheoli 'risg' yn effeithiol yw prif amcanion y gweithgareddau hyn.

Ychwanegodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid fod gan y Cyngor Strategaeth Rheolaeth Trysorlys integredig lle mae benthyca a buddsoddiadau yn cael eu rheoli yn unol â'r arferion proffesiynol gorau. Bydd y Cyngor yn ceisio benthyca arian os oes angen naill ai i ddiwallu anghenion llif arian tymor byr, neu i ariannu cynlluniau cyfalaf a gymeradwyir o fewn y rhaglen gyfalaf. Felly, nid oedd unrhyw fenthyciadau gwirioneddol a gymerwyd yn gysylltiedig yn gyffredinol ag eitemau penodol o wariant neu asedau.

Roedd y Cyngor yn agored i risgiau ariannol gan gynnwys y posibilrwydd o golli arian a fuddsoddwyd ac effaith ar y refeniw o ganlyniad i newid mewn cyfraddau llog. Felly mae nodi, monitro a rheoli risg yn llwyddiannus, yn ganolog i'n Strategaeth Rheoli'r Trysorlys. Pe bai unrhyw beth yn newid yn sylweddol, byddai Strategaeth ddiwygiedig yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor i'w chymeradwyo.

Bydd effaith barhaus y rhyfel yn yr Wcráin ar y DU, ynghyd â chynnydd mewn chwyddiant, cyfraddau llog uwch, polisi ansicr y llywodraeth a rhagolygon economaidd sy'n gwaethygu, yn ddylanwadau mawr ar Strategaeth Rheoli'r Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2023-2024.

Ar 31 Rhagfyr 2022, roedd gan y Cyngor £99.8 miliwn o fenthyciadau a £94.05 miliwn o fuddsoddiadau. Dangosir manylion am sefyllfa'r ddyled a buddsoddiad allanol yn Nhabl 1 o fewn Strategaeth Rheoli'r Trysorlys.

Amlygodd y Strategaeth y rhagwelir efallai y bydd angen i'r Cyngor fenthyca yn ystod y tair blynedd nesaf. Fodd bynnag, gall y sefyllfa hon newid pe na bai cynlluniau cyfalaf yn

symud ymlaen fel y rhagwelwyd, neu i'r gwrthwyneb ychwanegir cynlluniau pellach at y Rhaglen Gyfalaf nad ydyn nhw'n cael eu hariannu'n llawn gan grant neu gyfraniadau refeniw, neu gynlluniau newydd yn cael eu hychwanegu lle bydd angen ariannu dyled ychwanegol.

Bydd angen monitro'r gofyniad i fenthyca yn barhaus a bydd unrhyw fenthyca newydd yn cael ei ystyried ochr yn ochr ag unrhyw newidiadau yn y Rhaglen Gyfalaf a allai effeithio ar lefel y benthyca sydd ei angen. Wrth fenthyca arian, prif amcan y Cyngor yw taro cydbwysedd risg isel priodol rhwng sicrhau costau llog isel a chael sicrwydd ynghylch y costau hynny dros y cyfnod y mae angen yr arian ar ei gyfer. Roedd y Strategaeth yn amlinellu y bydd prif amcanion y Cyngor o ran benthyca yn 2023-24 yn cynnwys:

• Lleihau costau refeniw y ddyled;
• Rheoli proffil aeddfedrwydd dyled y cyngor;
• Aildrefnu’r ddyled os yw'n briodol;
• Gwneud y defnydd gorau o'r holl adnoddau cyfalaf gan gynnwys benthyca, derbyniadau cyfalaf y gellir eu defnyddio, cyfraniadau refeniw i gyfalaf a grantiau a chyfraniadau.

Atgoffodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid y Cabinet fod y trysorlys, ym mis Tachwedd 2020, wedi cyhoeddi telerau benthyca diwygiedig ar gyfer benthyciadau drwy’r byrddau gwaith cyhoeddus gan awdurdodau lleol. Y bwrdd benthyciadau gwaith cyhoeddus fyddai prif ffynhonnell unrhyw fenthyca y mae'r Cyngor yn ei wneud. O dan y gofynion newydd hyn, byddai'n ofynnol i'r Swyddog Adran 151 gadarnhau nad yw'r cynlluniau gwariant cyfalaf yn cynnwys bwriad gan yr awdurdod i fenthyca i fuddsoddi'n bennaf ar gyfer enillion ariannol. Cadarnhaodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid (fel Swyddog Adran 151) nad yw'r Cyngor yn bwriadu buddsoddi yn y modd hwn.

Fel yr amlinellwyd yn gynharach, ar ddiwedd Rhagfyr 2022 roedd gan y Cyngor £94.05 miliwn o fuddsoddiadau. Prif amcan y Cyngor wrth fuddsoddi arian oedd taro cydbwysedd priodol rhwng risg ac adenillion, lleihau'r risg o golledion oherwydd diffygdalu a'r risg o dderbyn incwm buddsoddi anaddas o isel. Gall y Cyngor fuddsoddi ei arian dros ben gyda gwrth bartïon cymeradwy a manylwyd ar y rhain yn Nhabl chwech o Strategaeth Rheoli'r Trysorlys. Roedd y tabl hefyd yn manylu ar y terfynau amser a'r terfynau ariannol uchaf a fydd yn berthnasol i bob un o'r gwrth bartïon hynny.

Gorffennodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid drwy gadarnhau y bydd y Cyngor yn derbyn adroddiadau yn ôl y gofyn yn ystod 2023-24 yn unol â gofynion y cod ymarfer. Bydd y rhain yn cynnwys Strategaeth Rheoli Trysorlys blynyddol y mae'r Aelodau wedi'i derbyn heddiw, yn ogystal ag adroddiad monitro canol blwyddyn ac adroddiad alldro blynyddol y trysorlys.

Fe gymeradwywyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet - Adnoddau.

Nododd yr Aelod Cabinet - Adfywio bod cyfraddau llog yn amhosibl eu rhagweld ar hyn o bryd er eu bod yn cynyddu. Gofynnodd pa effaith fyddai hyn yn ei gael ar gyllid y Cyngor.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid fod cyfraddau llog yn effeithio mewn dwy ffordd, sef os ydy'r Cyngor yn buddsoddi arian yn rhywle arall, yna gyda chyfraddau llog yn codi ar hyn o bryd, byddai hyn yn golygu mwy o elw i'r awdurdod lleol. Ond i'r gwrthwyneb, wrth fenthyca byddai cost y ddyled yn cynyddu i'r Cyngor mewn modd tebyg.

Dywedodd yr Arweinydd bod newidiadau sylweddol o ran terfynau buddsoddiadau ar gyfer balansau fel yr adlewyrchwyd yn yr adroddiad. Gofynnodd a oedd unrhyw newidiadau eraill fel, er enghraifft, bod gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio rôl hanfodol bellach o ran monitro swyddogaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor o bryd i'w gilydd.

Dywedodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid, fod y Pwyllgor uchod yn derbyn adroddiadau Rheoli'r Trysorlys gyda'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd a lle bo Aelodau'r corff hwnnw'n ystyried ei fod yn briodol, eu bod yn rhoi adborth ar yr adroddiadau hyn. Ychwanegodd hefyd fod hyfforddiant ar Reoli'r Trysorlys wedi'i gynnal yn ddiweddar i bawb o'r Aelodau i'w mynychu tua 10 diwrnod yn ôl, a bod aelodau lleyg y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn bresennol yn y sesiwn hon, er mwyn i bawb gael gwell dealltwriaeth o reolaeth ariannol.

PENDERFYNWYD:

Bod y Cabinet wedi ystyried yr adroddiad ac yn argymell bod Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a gynhwysir yn Atodiad A yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor i'w chymeradwyo.

145. EITEMAU BRYS

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 16:00